



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Min-Y-Ddol

**Lon Plas Kynaston
Cefn Mawr
LL14 3PA**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn ag Ysgol Min-Y-Ddol

Enw'r darparwr	Ysgol Min y Ddol
Awdurdod lleol	Wrecsam
Iaith y darparwr	Cyfrwng Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	112
Nifer y ddsyblion o oedran ysgol statudol	78
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	18
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd <i>(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)</i>	14.7%
Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) <i>(Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%)</i>	12.8%
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref	30.8%
Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol	*
Dyddiad y penodwyd y pennaeth	Mai 2019
Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol)	06/12/2011
Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn	03/05/2022
Gwybodaeth ychwanegol	

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](http://gov.wales)

(a) Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae arweinwyr, staff a'r disgyblion yn llwyddo i ddatblygu awyrgylch ble mae bron pob disgybl yn mwynhau ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Datblygodd yr ysgol syniadau da er mwyn cynnal lles disgyblion yn ystod y pandemig, gan gryfhau eu gwydnwch emosiynol ac ailsbarduno eu diddordeb mewn ffitrwydd. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ag agweddau da tuag at ddysgu, gan gydweithio'n barchus a'i gilydd ac oedolion ac yn barod i ddyfalbarhau â'u gwaith.

Cryfder amlwg yr ysgol yw'r ffordd y darperir profiadau dysgu ysgogol a diddorol sydd yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae buddsoddiad sylweddol yr ysgol mewn offer ac adnoddau ar gyfer creu ardaloedd allanol apelgar a symbylus yn sicrhau cyfleoedd bendigedig i ddisgyblion ymwneud â'u dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ond mae lle i wella eu medrau ysgrifennu a rhifedd. Mae medrau llafar Cymraeg disgyblion yn dda, ac mae gwaith yr athrawon a'r staff i gefnogi hyn yn gadarn.

Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru ac yn gwneud ystyriaethau buddiol tuag at gryfhau addysgeg. Mae athrawon a staff yn cynllunio gwersi a gweithgareddau diddorol i'r disgyblion ac maent yn annog brwdfrydedd a medrau meddwl disgyblion yn llwyddiannus. Er hyn, mae lle i gryfhau'r adborth y maent yn ei ddarparu i ddisgyblion er mwyn iddynt wybod sut i wella, ac i roi her briodol i bob disgybl.

Mae hanes da o wneud gwelliannau buddiol yn yr ysgol, ac mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn casglu ystod dda o dystiolaeth er mwyn iddynt wybod beth sydd yn gweithio'n dda a beth i'w wella i'r dyfodol. Byddai miniogi'r trefniadau hunanwerthuso i graffu yn fwy ar safonau disgyblion yn cryfhau'r broses, yn ogystal â datblygu dulliau i werthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau y mae'r ysgol wedi'u gosod.

Argymhellion

- A1 Cryfhau medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion, yn enwedig ar frig yr ysgol
- A2 Cryfhau'r adborth mae athrawon yn ei roi i ddisgyblion fel y gallant wella eu gwaith yn fwy effeithiol
- A3 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio disgyblion yn unol â'u gallu, yn enwedig i'r disgyblion mwy galluog
- A4 Gwella arferion hunanwerthuso er mwyn arfarnu safonau disgyblion a datblygu dulliau mwy effeithiol o arfarnu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd digon effeithiol mewn perthynas â'u gallu.

Mae bron pob un disgybl yn dechrau yn y meithrin efo medrau iaith a chyfathrebu a medrau mathemategol sydd yn is na'r disgwyl ar gyfer eu hoedran. Mae gwybodaeth olrhain cynnydd yr ysgol yn dangos bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol mewn cyfnod byr o amser yn ystod eu haddysg gynnar. Er gwaethaf effeithiau'r pandemig, mae medrau cyfathrebu Cymraeg llawer o'r disgyblion yn y dosbarth derbyn yn datblygu'n dda. Maent yn caffael yr iaith yn gynnar ac yn datblygu geirfa a phatrymau brawddeg effeithiol wrth gyfathrebu efo oedolion a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar waelod yr ysgol yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau symbylus ac yn gwella eu geirfa a'r gystrawen Gymraeg yn gyflym. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn gofyn ac yn ateb cwestiynau i egluro eu dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi cael ei glywed ac yn crynhoi eu syniadau yn effeithiol, er enghraifft wrth esbonio sut i adeiladu pont lwyddiannus i'r cawr Bendigeidfran. Mae llawer o ddisgyblion hynaf yr ysgol bellach yn datblygu eu hyder i siarad efo cywirdeb cynyddol mewn ystod o gyd-destunau ac maent yn barod i fynegi barn am gymeriad o ffuglen, er enghraifft.

Ar y cyfan, mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Mae darllenwyr iau yn darllen testunau syml gyda mwynhad, yn gynyddol hyderus a chywir. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn darllen ystod briodol o destunau gyda chywirdeb cynyddol. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol at wahanol ddibenion. Enghraifft dda o hyn yw'r modd y maent yn defnyddio'r we yn hyderus ac effeithiol i ddarganfod a rhannu gwybodaeth am yr Ail Ryfel Byd. Mae'r rhan fwyaf yn darllen Saesneg yn gywir ac yn ystyrlon. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn Saesneg yn effeithiol i gywain a chyflwyno gwybodaeth, gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu yn llwyddiannus i gyflwyno'r wybodaeth.

O oedran ifanc, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd tuag at ysgrifennu wrth arbrofi â gwneud marciau. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr. Mae llawer yn adeiladu ar y medrau hyn yn gynyddol ym Mlwyddyn 1 a 2 gan, er enghraifft, ddefnyddio trefnolion yn effeithiol tra'n ysgrifennu adroddiad papur newydd ar hanes Blodeuwedd. Mae gan disgyblion hyn yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson cymeriad o ffuglen. Er bod y gwaith ysgrifenedig ar y cyfan wedi ei strwythuro'n effeithiol, nid yw safonau'r atalnodi a'r gystrawen Gymraeg yn ddigon safonol. Yn ogystal, nid yw medrau llawysgrifen llawer o ddisgyblion yn adlewyrchu eu hoedran na'u gallu ac mae cyflwyniad y gwaith yn aml yn flêr.

Mae llawer o ddisgyblion ifancaf yr ysgol yn datblygu medrau rhif, siâp, mesur a thrin data yn effeithiol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn defnyddio mesurau ansafonol yn llwyddiannus i fesur maint anifeiliaid, er enghraifft. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu tablau amledd ac yn llunio graffiau bar yn hyderus a chywir. Fodd bynnag, ar frig yr ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fylchau yn eu medrau a'u dealltwriaeth fathemategol. Er enghraifft, nid ydynt bob amser yn gwybod sut i ddefnyddio graddfa wrth greu graff bloc nac yn gwybod sut i fesur pellter yn gywir. Mae hyn yn raddol oherwydd diffyg cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu dealltwriaeth o fedrau mathemateg allweddol. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm ac nid yw'r disgyblion mwyaf galluog yn cael y lefel briodol o her i gwblhau tasgau ar y lefel uwch.

Yn ystod y pandemig, ac ers dychwelyd i'r ysgol, mae medrau digidol llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae'r disgyblion hyn yn cydweithio yn y cwmwl i gyflwyno gwybodaeth am eu cynefin ar gyfer gwefan fyw.

Mae medrau meddwl a datrys problemau llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt weithio ar heriau yn annibynnol yn y dosbarth awyr agored. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ymchwilio i gynefin trychfilod er mwyn eu canfod, eu dosbarthu a'u cofnodi.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r disgyblion yn hynod gwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn dangos balchder yn eu hysgol. Mae hyn yn nodwedd gref sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr awyrgylch ddysgu fyrlymus sy'n bodoli. Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol, yn teimlo'n ddiogel yno ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Mae gan bron pob disgybl agwedd iach tuag at ddysgu. Maent yn gwneud dewisiadau annibynnol ac yn cefnogi dysgu ei gilydd yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr medrus, hyderus a gwydn sy'n barod i ddysgu trwy weithgareddau thema a heriau sy'n sbarduno eu medrau meddwl, ac yn arbennig felly yng ngwaelod yr ysgol. Daw hyn yn amlwg o'r modd maent yn rhyngweithio ag oedolion ac yn dyfalbarhau â'u gwaith wrth weithio yn yr ardaloedd annibynnol gan gynnwys yn yr 'ysgol goedwig' ac yn ymroi i weithgareddau 'Llun Lles, Mawrth a Mercher Mwdlyd a Gwener Gwych'. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn barod i ymroi i dasgau a'u cwblhau. Fodd bynnag ar adegau, nid oes digon o her yn y gwaith a gyflwynir iddynt, yn arbennig y disgyblion mwyaf galluog a'r rhai ar frig yr ysgol. Mae hyn yn amharu ar frwdfrydedd ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae gan lawer o'r disgyblion dealltwriaeth dda o sut i fod yn unigolion iach a hyderus, ac yn deall, er enghraifft, sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar lein ac mae ymweliadau'r swyddog heddlu cymunedol yn atgyfnerthu hyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol a gwybodus, er enghraifft drwy eu hymwybyddiaeth o degwch. Gwelwyd enghreifftiau o hyn ym Mlynnyddoedd 5 a 6 gyda gwaith iaith yn ymwneud â'r rhyfel yn Wcráin. Er bod yr ysgol yn hyrwyddo gwybodaeth y disgyblion ynglŷn â Chonfensiwn y Cenhedloedd

Unedig ar Hawliau'r Plentyn, mae eu dealltwriaeth o'u hawliau yn gyfyngedig, ar y cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn gwranddo ar eu barn ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn dechrau ymgymryd â rolau a chyfrifoldeb arwain yn hyderus. Enghraifft o hyn yw'r modd y trefnir y Cyngor Cefnogol. Er bod oedolyn bob amser yn bresennol yn y cyfarfodydd, y disgyblion sy'n penderfynu a blaenoriaethu syniadau, gan sicrhau effaith gadarnhaol ar ethos ac amgylchedd yr ysgol. Enghreifftiau o hyn yw eu dymuniad i gael hybu'r iaith Gymraeg yn ôl ar y buarth, ac eisoes yn ystod amseroedd egwyl, mae disgyblion sydd wedi llwyddo i wisgo medal Cymraeg yn gwobrwyo cyd-ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg â'i gilydd. Dymuniad arall y cyngor yw croesawu a gwahodd y rhieni yn ôl i mewn i'r ysgol yn dilyn y pandemig ac i wella blaen yr ysgol ar gyfer amseroedd egwyl. Maent eisoes wedi dylanwadu ar ddiogelu'r drefn parcio ar flaen yr ysgol a chreu ardaloedd difyr y tu allan i'r adeilad.

Mae llawer o'r disgyblion yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu heriau wrth ymateb i weithgareddau a gyflwynir, er enghraifft wrth ddatrys problemau yn ystod sesiynau addysg gorfforol i ddarganfod os mai'r plentyn talaf sydd yn neidio bellaf.

Wrth wynebu sefyllfaoedd newydd ac anghyfarwydd, mae llawer o'r disgyblion yn gweithredu'n greadigol a chadarnhaol wrth weithio o fewn yr ardaloedd annibynnol, ysgogol ac amrywiol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn dangos yr un brwdfrydedd a balchder tuag at gyflwyniad eu gwaith ac nid ydynt yn effeithiol wrth ddefnyddio adborth i symud eu dysgu ymlaen.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol i addasu'r cwricwlwm i fodloni dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'n seiliedig ar ymchwil ac yn sicrhau bod y pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiad yn cael eu hystyried yn effeithiol. Rhoddir cyfleoedd priodol i ddisgyblion gyfrannu eu syniadau at yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Trwy eu themâu tymhorol, mae'r athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau a phrofiadau adeiladol yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon ar frig yr ysgol yn cynllunio'n ddigon trylwyr ar gyfer y lefel briodol o her i bob disgybl.

Lle mae'r arfer ar ei gorau, mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu ysgogol a diddorol sydd yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Ar waelod yr ysgol, mae'r gweithgareddau dysgu yn cefnogi'r disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau o fewn eu gwersi a thros amser. Er enghraifft, mae llawer o'r disgyblion yn y dosbarth derbyn yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn effeithiol wrth drafod gwyliau taith Tedi Twt yn Affrica. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol y disgyblion. O ganlyniad, ym mlynnyddoedd uwch yr ysgol, nid yw'r profiadau a gynllunnir bob amser yn galluogi disgyblion i wneud y cynnydd gorau yn eu medrau ysgrifennu a rhifedd.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol ac mae'r berthynas dda sydd yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a lles bron bob un disgybl. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r cymorthyddion i gefnogi dysgu disgyblion, gan feithrin annibyniaeth y disgyblion yn eu dysgu. Mae gan bron bob un o'r athrawon ac ymarferwyr amcanion clir ar gyfer y dysgu ac maent yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau ysgogol i ennyn diddordeb y disgyblion. Mae arweinwyr wedi buddsoddi yn sylweddol mewn offer ac adnoddau ar gyfer creu ardaloedd allanol apelgar a symbylus, a hynny ymhob dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol, yn elwa o gyfleoedd cyfoethog i ddefnyddio'r ardaloedd hyn, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 greu cerbyd lleuad gan ddefnyddio offer trin coed yn yr ardal adeiladu. Mae'r athrawon yn datblygu'r arfer o hwyluso'r dysgu fel rhan annatod o'r profiadau yn hynod fedrus. Yn ogystal, mae athrawon yn trefnu profiadau cyfoethog i ddisgyblion datblygu eu medrau creadigol a chorfforol, drwy glybiau coginio a chwaraeon allgyrsiol ac ymweliadau cwricwlaidd perthnasol.

Mae arferion addysgu o fewn a thu hwnt i'r ystafell ddosbarth yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Mae gweithgareddau craidd yn datblygu medrau ieithyddol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus, gyda chynnwys sydd yn magu hyder y disgyblion, yn dilyn effaith y pandemig. Mae gan yr ysgol dechnegau cyson i roi adborth amserol i ddisgyblion, er enghraifft, trwy'r dull melyn meddwl a gwyrdd gwych. Fodd bynnag, nid yw'r adborth gan athrawon sy'n addysgu plant hynaf yr ysgol yn ddigon cynhwysfawr ar gyfer mynd i'r afael â gwallau cyson, er enghraifft yng nghystrawen ysgrifenedig yr iaith Gymraeg ac mewn atalnodi sylfaenol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn eithriadol o ofalgar a meithringar gan sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Cefnogir lles emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion drwy ddarparu rhaglenni ymyrraeth gwerthfawr a phwrpasol. Enghraifft dda o hyn yw'r cynllun 'Daioni' sydd yn cefnogi'r disgyblion bregus hynny a gaiff drafferth ymgartrefu yn yr ysgol.

Llwydda'r ysgol i sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda'r rhieni a'u teuluoedd trwy ymgynghori â nhw i ddarganfod y dulliau cyfathrebu mwyaf effeithiol i'w galluogi i gefnogi eu plant. Elfen fuddiol o hyn yw'r 'amser awgrym', sef fideos a rannwyd gyda rhieni o awgrymiadau am sut y gallent gynorthwyo a chefnogi eu plant gyda'r iaith Gymraeg. Yn ogystal, mae'r 'sesiynau sirioli' anffurfiol rhwng y disgyblion, eu cyfoedion a staff yr ysgol, yn sicrhau cyfleoedd buddiol i sgwrsio am les. Mae ethos o hyrwyddo egwyddorion meddylfryd twf yn yr ysgol er mwyn datblygu medrau disgyblion trwy ymroddiad a gwaith caled, a lluniwyd dogfennau perthnasol i hybu dealltwriaeth y rhieni o'r agwedd hon.

Mae'r staff yn cefnogi agweddau o fyw'n iach a chryfhau gwydnwch a lles emosiynol y disgyblion, gan gynnwys wrth geisio llesteirio effeithiau'r pandemig. Er enghraifft, yn dilyn y cyfnodau clo yn sgil y pandemig, trefnodd yr ysgol raglen ffitrwydd a lles 6 wythnos a gynhaliwyd gan Sefydliad Cae Ras Wreccsam i hyrwyddo byw'n iach, mwynhad a mwy o ymarfer corff. Yn ogystal, bu iddynt ystyried yn ofalus sut i wella medrau rhyngweithio disgyblion a'u cyfoedion, gan sefydlu 'cyfeillion yr iard' o blith disgyblion hynaf yr ysgol. Bu i hyn hyrwyddo rhyngweithio a datblygu medrau

llafaredd Cymraeg y disgyblion. O ganlyniad, mae'r staff yn nodi bod disgyblion yn fwy sylwgar i'w cyfoedion.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu dulliau effeithiol o rannu manteision presenoldeb rheolaidd gyda rhieni. Mae hyn yn cynnwys gohebiaeth sydd yn tynnu sylw teuluoedd at ganran presenoldeb eu plentyn a'r darlun goleuadau traffig sydd yn cyfeirio at effaith absenoldeb ar addysg eu plentyn. Maent wedi sefydlu'r strategaethau synhwyrol hyn i gyfnogi teuluoedd ac fel ymateb i batrymau o absenoldeb sydd yn codi yn dilyn y pandemig.

Mae disgyblion iau yr ysgol yn cael cyfle da i roi mewnbwn i'w gwaith ac mae aelodau o gynghorau'r ysgol yn cael cyfleoedd arbennig i lywio penderfyniadau. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth ar bob achlysur yn llwyddo i gynorthwyo disgyblion i gymryd rhan mewn penderfyniadau a fyddai'n llywio eu profiadau, gan gynnwys y cyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu.

Mae'r ysgol yn cynnig cymorth buddiol iawn i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac wrth adnabod carfannau eraill o ddisgyblion a fyddai'n elwa o gymorth wedi ei deilwra, fel disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn manteisio'n gryf ar ystod dda o ddatblygiad proffesiynol i'r gweithlu i gefnogi'r ddarpariaeth, gan gynnwys hyfforddiant i gefnogi disgyblion bregus. Mae hwn yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegiol (CADY) yn effeithiol iawn yn ei rôl ac yn arwain yr ysgol o ran olrhain cynnydd y disgyblion gydag ADY yn drwyadl. Mae'n adolygu a monitro cynnydd disgyblion o'u manau cychwyn ac yn arwain hyfforddiant ysgol gyfan i ddatblygu dealltwriaeth y staff.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwerthfawr o bartneriaethau ac asiantaethau allanol i gynnig cymorth effeithiol i ddysgwyr ag ADY a'r disgyblion hynny all fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Enghraifft o hyn yw'r cyswllt buddiol sydd rhwng y CADY a gwasanaethau'r awdurdod lleol fel y gwasanaeth hwyrddyfodiaid a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Datblygir dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a'u diwylliant yn llwyddiannus. Trefnir cyfleoedd i ddisgyblion uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach trwy waith creadigol ysgogol a themâu o fewn y dosbarthiadau. Ar draws yr ysgol, gwelir arddangosfeydd deniadol o gynnyrch y disgyblion yn dilyn gweithdai gydag enwogion ac artistiaid amrywiol gan gynnwys rhai o Gymru. Enghraifft o hyn yw'r gwaith 'Cerddoriaeth yw'r iaith y mae pawb yn ei deall' sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg wrth greu cân am Gymru.

Mae diwylliant diogelu'r ysgol a'r trefniadau i gadw pob disgybl yn ddiogel yn gadarn. Mae'r staff yn hybu a chefnogi diwylliant gwrthfwlio ac ymagweddau cadarnhaol tuag at reoli ymddygiad disgyblion. Mae darpariaeth yr ysgol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ymddygiad sy'n niweidiol yn emosiynol neu'n anniogel yn briodol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Dan arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, yr uwch dîm rheoli a thîm brwdfrydig o staff addysgu a chymorth, mae hanes da o wneud gwelliannau diweddar ac adnabyddiaeth o'r angen i barhau i wella agweddau penodol o'r addysgu a'r dysgu

ymhellach. Mae'r arweinwyr a'r staff yn rhoi sylw da i ddatblygiad proffesiynol ac yn cymryd rhan fuddiol o fewn y broses rheoli perfformiad. Maent wedi elwa o weld arfer dda mewn ysgolion eraill a gwahodd ymwelwyr o ysgolion cyfagos i rannu arfer dda. Mae'r staff yn cydweithio'n fuddiol fel tîm ac, er enghraifft, yn cyfrannu'n werthfawr tuag at gyflawni blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r arweinwyr wedi adolygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol gan lwyddo i ymgorffori barn rhieni a'r holl staff. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio'n synhwyrol ar baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ac ar gyfer magu addysgeg effeithiol i'r dyfodol. Mae'r llywodraethwyr yn cefnogi gwaith y pennaeth a'r tîm o staff yn frwdfrydig. Maent yn cynyddu eu gwybodaeth am fywyd a gwaith yr ysgol wrth graffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. O ganlyniad, maent yn defnyddio'r wybodaeth i wneud awgrymiadau ystyrlon, er enghraifft wrth holi faint o gyfleoedd sydd i ddisgyblion drafod a fynegi barn ynghlwm ag un o flaenoriaethau gwella'r ysgol.

Defnyddia'r arweinwyr a'r staff ystod dda o ddulliau ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae hyn yn cynnwys craffu ar dystiolaeth uniongyrchol o'r addysgu a'r dysgu. Mae arweinwyr yn ystyried barn rhieni a disgyblion yn aml hefyd, sydd yn rhoi darlun gwerthfawr o'u safbwyntiau. Gwna'r arweinwyr ddefnydd synhwyrol o'r wybodaeth hon er mwyn creu nifer hylaw o flaenoriaethau doeth ar gyfer gwella. Er bod y broses hunanwerthuso yn rhoi gwybodaeth swmpus am ansawdd y ddarpariaeth, fel yr addysgu a'r cwricwlwm, nid yw'n ffocysu ddigon ar safonau disgyblion. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn mynd i'r afael â rhai agweddau sydd angen eu gwella yn ddigon bwriadus, fel ansawdd medrau rhifedd ac ysgrifennu'r disgyblion. Mae arweinwyr hefyd yn cydnabod yr angen i gryfhau'r dull y maent yn mesur cynnydd yn erbyn eu blaenoriaethau yn fwy effeithiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cwricwlwm yr ysgol yn magu agweddau priodol tuag at yfed a bwyta yn iach. Maent hefyd yn hybu diwylliant diogelu'r ysgol yn briodol. Maent yn cynnig gwerthusiad addas o'u trefniadau diogelu, ac mae'r staff yn cael ystod addas o hyfforddiant ar lefel briodol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'i hadnoddau. Mae buddsoddiad yr ysgol i greu amgylcheddau dysgu ysgogol wedi bod yn llwyddiannus wrth ennyn diddordeb y disgyblion a chreu ardaloedd deniadol sy'n gwella agweddau disgyblion tuag at eu dysgu. Mae arweinwyr yn ymwybodol o effeithiau tlogi ar gyrhaeddiad disgyblion, yn enwedig yn sgil y pandemig. Maent yn defnyddio cyllid yn bwrpasol er mwyn cefnogi'r disgyblion hyn, er enghraifft i wella eu medrau llafaredd, eu presenoldeb, eu lles emosiynol a'u hymddygiad.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddogfennau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at: cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru: [Estyn](#)

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/07/2022